Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Deunyddiau Plastig A Polystyren

21 Tachwedd 2018

**Cais am Wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 18 Hydref, pan wnaethoch ofyn:

> *A allai Comisiwn y Cynulliad amlinellu'r gost o wariant y Cynulliad ar ddeunyddiau plastig a polystyren a ddefnyddiwyd ar gyfer nwyddau marchnata'r Cynulliad, gan fanylu'r swm a gaiff ei wario ar gyfer pob un o'r tair blwyddyn ariannol flaenorol.*

Mae manylion y gwariant ar ddeunyddiau plastig a pholystyren a ddefnyddir ar gyfer nwyddau marchnata'r Cynulliad i'w gweld yn y tabl isod.

| Blwyddyn | Cost |
|---|---|
| 2015-2016 | £11,991.74 |
| 2016-2017 | £ 8,991.67 |
| 2017-2018 | £14,246.76 |

Mae'r costau hyn yn ymwneud â'r eitemau a ganlyn:
- Paneli arddangos
- Baneri arddangos
- Beiros wedi'u brandio
- Poteli dŵr
- Ponchos
- Baneri llaw
- Bathodynnau ag enwau

Ar gyfer y digwyddiadau canlynol:
- yr Agoriad Brenhinol
- Cynghrair y Pencampwyr
- y Senedd Ieuenctid
- Digwyddiadau'r haf amrywiol

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@cynulliad.cymru
Information-request@assembly.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Yn gywir,

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Ystyriwyd eich cais yn unol â’r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i’r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Rhowch wybod imi os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dilynwch y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i’ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae'r Cynulliad wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth yn:
Ceisiadau-gwybodaeth@cynulliad.cymru neu'n ysgrifenedig i
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae’r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i’r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â’r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad isod:

Information Commissioner’s Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF